Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Cabinet**
DYDDIAD	**5 Medi 2023**
LLEOLIAD:	**Hybrid/Siambr y Cyngor**
TEITL:	**Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd, cyn i'r Strategaeth gael ei hystyried yn ffurfiol gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn.**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Rhoi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2023**

Derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor adroddiad am y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd. Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Gareth Davies, yr Aelod Cabinet, gyda chymorth y swyddogion.

Yn gyffredinol, roedd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cael ei diweddaru bob blwyddyn. Yn sgil yr heriau digynsail a wynebwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24, nid oedd yn bosib diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ystod y broses honno a hynny oherwydd bod yr holl ymdrechion wedi mynd tuag at bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24.

Gwnaeth yr Aelodau ar y cyfan ganmol fersiwn ddiweddaraf y Strategaeth, gan nodi bod y Strategaeth wedi'i chyflwyno'n dda a'i bod yn gymharol hawdd ei dilyn a'i deall. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau ar wahanol faterion gan gynnwys cynigion Llywodraeth Cymru am yr Ardoll Ymwelwyr Dewisol, y trefniadau ariannu ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, y sefyllfa ddiweddaraf am ddyfarniadau cyflog y Staff a diwedd cynllun PFI Penweddig.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr argymhelliad canlynol i'r Cabinet:

1. Dylid ystyried a rhoi adborth ynghylch fersiwn ddiweddaraf y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi fersiwn ddiweddaraf y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Y Cynghorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol